## Templed Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 1

| | |
|---|---|
| **Teitl y polisi a’i ddiben (amlinelliad cryno):** | **Canllawiau Anstatudol ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref** |
| **Enw’r swyddog:** | **Gemma Wilks** |
| **Adran:** | **AdAS – Cymorth i Ddysgwyr** |
| **Dyddiad:** | **29 Ebrill, 2015** |
| **Llofnod:** | |

## 1. Rhowch ddisgrifiad cryno o’r polisi/penderfyniad.
## Er enghraifft, beth yw amcan cyffredinol y polisi/penderfyniad, beth yw’r nodau a bennwyd (yn cynnwys pwy yw’r buddiolwyr arfaethedig), disgrifiad bras o sut y cyflawnir hyn, beth fydd yn mesur llwyddiant, a’r amserlen ar gyfer cyflawni hyn?

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau mewn datganiad ysgrifenedig yng ngwanwyn 2014 fod angen gwybodaeth fwy diweddar am y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru, a bod angen diweddaru ac adnewyddu’r canllawiau presennol ynglŷn ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Cynhelir ymgynghoriad ynglŷn â’r canllawiau anstatudol a fydd yn para am wyth wythnos, a rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2015.

Bwriedir i’r canllawiau fod o fudd i’r canlynol:

- Plant sy’n derbyn addysg yn y cartref a’u teuluoedd (gan gynnwys Teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, lleiafrifoedd ethnig a phlant ag anghenion addysgol arbennig);

- Awdurdodau lleol;

- Sefydliadau â chyfrifoldeb dros blant.

## 2. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i ymgysylltu â phobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler Atodiad A o’r canllawiau ar yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb) y nodir eu bod yn berthnasol i’r polisi. Pa gamau a roddwyd ar waith gennych i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol?

Ystyrir y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn grŵp amrywiol dros ben o deuluoedd ac oherwydd hynny ymdrechwyd i sicrhau bod y broses ymgysylltu mor gynhwysol â phosibl. Crëwyd gwe-ddolen ac arolwg a’u dosbarthu i bob awdurdod lleol er mwyn iddynt eu cynnig i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ym mhob ardal. Dosbarthwyd y ddolen hefyd i Wasanaethau Addysg Teithwyr Awdurdodau Lleol, ac fe’i hanfonwyd ymlaen at gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru. Yn ogystal, anfonwyd arolygon at brosiectau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, i’w rhannu â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a adnabyddir yn lleol.

Yn ogystal â’r atebion a ddaeth i law drwy’r we-ddolen a’r arolygon, cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn ar draws ardaloedd deg awdurdod lleol. Trefnwyd llawer o’r cyfweliadau ar y cyd â chydgysylltwyr lleol Addysg Ddewisol yn y Cartref yr awdurdodau lleol.

Cynhaliwyd cyfweliadau hefyd â nifer bach o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol. Mae’r rhain yn cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), Achub y Plant a SNAP Cymru.

Trwy geisio barn nifer mawr o rieni a phlant Addysg Ddewisol yn y Cartref, roeddem yn gobeithio cael gwell syniad o'r prif broblemau mewn cysylltiad ag Addysg Ddewisol yn y Cartref, er mwyn helpu i lywio'r broses o ddatblygu'r canllawiau newydd.

Bydd ymgynghoriad â'r cyhoedd ynglŷn â'r canllawiau newydd ym mis Mai 2015 a bydd fersiwn hawdd ei deall ac addas ar gyfer pobl ifanc yn cael ei chyhoeddi ar yr un pryd.

**3. Rhaid i chi seilio eich penderfyniadau ar dystiolaeth gadarn. Pa sail dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennych? Rhestrwch ffynhonnell y dystiolaeth e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru. A ystyriwch chi fod y dystiolaeth yn gryf, yn foddhaol neu'n wan ac a oes yna fylchau yn y dystiolaeth?**

Darparodd y broses ymgysylltu a ddisgrifiwyd yng nghwestiwn 2 y sail dystiolaeth ar gyfer datblygu'r canllawiau newydd.

Cafodd yr arolwg gwe-ddolen dderbyniad da; cwblhawyd arolwg y rhieni gan 354 o oedolion, a chwblhawyd yr arolwg gan 97 o blant a phobl ifanc. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drwyadl a thrylwyr o'r profiad o Addysg Ddewisol yn y Cartref mewn perthynas â'r canllawiau, cynhaliwyd 72 o gyfweliadau wyneb yn wyneb, gydag 13 arall yn cael eu cyfweld dros y ffôn. Aethom ati hefyd i gynnal arolwg o gydgysylltwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol. Roedd yn well gan rai cydgysylltwyr gynnal yr arolwg drwy gyfweliad ffôn. Roedd hyn yn caniatáu trafodaeth fwy manwl o'r problemau a wynebir gan awdurdodau lleol mewn cysylltiad ag Addysg Ddewisol yn y Cartref. Yn ogystal, trwy gydol y cyfnod ymgysylltu hwn, fe wnaethom gyfarfod â nifer o gydgysylltwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol yn unigol ac yn rhan o gyfarfodydd a fforymau mwy er mwyn cael gwrando ar eu sylwadau am Addysg Ddewisol yn y Cartref, a'u deall.

Bydd crynodeb o'r broses ymgysylltu a'i chanfyddiadau yn cael ei chyhoeddi gyda'r canllawiau terfynol ym mis Medi 2015.

***Mae'n bwysig nodi unrhyw gyfleoedd a welsoch a allai wella neu hyrwyddo cydraddoldeb.***

## Effaith

**Cwblhewch yr adran nesaf i ddangos sut y gallai'r polisi / penderfyniad / arfer hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gweler y canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ragor o wybodaeth).**
**Nid yw diffyg tystiolaeth yn rheswm dros *beidio* â symud ymlaen i gynnal Asesiad. Tynnwch sylw at unrhyw fylchau a welsoch yn y dystiolaeth. Dywedwch a yw'n fwriad gennych i lenwi'r bylchau hyn, ac os felly, sut.**

### 4.1 A ydych chi'n credu y bydd y polisi / penderfyniad / arfer hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoed?

| Oed | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | X | | | Mae'r ddogfen arfaethedig hon wedi'i thargedu'n benodol at awdurdodau lleol â'r bwriad o roi cyngor ac arweiniad ar wella eu cefnogaeth barhaus ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref. |
| Pobl 18- 50 oed | | | X | |
| Pobl hŷn (50+) | | | X | |

### 4.2 Oherwydd eu bod yn anabl?

| Nam | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut |
|---|---|---|---|---|

| | | | Dibwys | y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Nam ar y golwg | X | | | Er bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amrywiol, nododd 31% o rieni a ymatebodd yn ystod y broses ymgysylltu, fod anallu ysgol i ddarparu ar gyfer Angen Addysgol Arbennig eu plentyn yn ffactor yn eu penderfyniad i ddarparu Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| Nam ar y clyw | X | | | Er bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amrywiol, nododd 31% o rieni a ymatebodd yn ystod y broses ymgysylltu, fod anallu ysgol i ddarparu ar gyfer Angen Addysgol Arbennig eu plentyn yn ffactor yn eu penderfyniad i ddarparu Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| Anabledd corfforol | X | | | Er bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amrywiol, nododd 31% o rieni a ymatebodd yn ystod y broses ymgysylltu, fod anallu ysgol i ddarparu ar gyfer Angen Addysgol Arbennig eu plentyn yn ffactor yn eu penderfyniad i ddarparu Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| Anabledd dysgu | X | | | Er bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amrywiol, nododd 31% o rieni a ymatebodd yn ystod y broses ymgysylltu, fod anallu ysgol i ddarparu ar gyfer Angen Addysgol Arbennig eu plentyn yn ffactor yn eu penderfyniad i ddarparu Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| Problem iechyd meddwl | X | | | Er bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amrywiol, nododd 31% o rieni a ymatebodd yn ystod y broses ymgysylltu, fod anallu ysgol i ddarparu ar gyfer Angen Addysgol Arbennig eu plentyn yn ffactor yn eu penderfyniad i ddarparu Addysg Ddewisol yn y Cartref |
| Namau eraill | X | | | Er bod y gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amrywiol, nododd 31% o rieni a ymatebodd yn ystod y broses ymgysylltu, fod anallu ysgol i ddarparu ar gyfer Angen Addysgol Arbennig eu plentyn yn ffactor yn eu penderfyniad i ddarparu Addysg Ddewisol yn y Cartref |

### 4.3 Oherwydd eu rhyw (dyn neu ddynes)?

| Rhyw | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Gwryw | | | X | |
| Benyw | | | X | |

### 4.4 Oherwydd eu bod yn drawsrywiol?

| Trawsrywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Trawsrywiol | | | X | |

### 4.5 Oherwydd eu priodas neu bartneriaeth sifil?

| Priodas a Phartneriaeth Sifil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Priodas | | | X | |
| Partneriaeth Sifil | | | X | |

## 4.6 Oherwydd eu beichiogrwydd neu famolaeth?

| Beichiogrwydd a Mamolaeth | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Beichiogrwydd | | | X | |
| Mamolaeth (y cyfnod ar ôl geni) | | | X | |

## 4.7 Oherwydd eu hil?

| Hil | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)/ Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Pobl o leiafrif ethnig (e.e. Asiaidd, Du) | X | | | Mae'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru'n amrywiol, ac mae cyfran yn dod o gymunedau lleiafrifol ethnig sydd wedi dewis peidio â dilyn llwybr addysg y brif ffrwd, a hynny am resymau diwylliannol, crefyddol, ideolegol neu athronyddol o bosibl. Bydd y canllawiau anstatudol hyn yn helpu awdurdodau lleol i gefnogi'r teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref yn well. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tarddiad Cenedlaethol (e.e. Cymreig, Seisnig) | X | | | Mae'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru'n amrywiol, ac mae cyfran ohonynt o darddiad cenedlaethol, sydd wedi dewis peidio â dilyn llwybr addysg y brif ffrwd am nifer o resymau, gan gynnwys rhesymau diwylliannol, crefyddol, ideolegol neu athronyddol o bosibl. Bydd y canllawiau anstatudol hyn yn helpu awdurdodau lleol i gefnogi'r teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref yn well. |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | | | X | |
| Sipsiwn a Theithwyr | X | | | Mae'r gymuned Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru'n amrywiol, ac mae cyfran yn dod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi dewis peidio â dilyn llwybr addysg y brif ffrwd, a hynny am resymau diwylliannol, crefyddol, ideolegol neu athronyddol o bosibl. Bydd y canllawiau anstatudol hyn yn helpu awdurdodau lleol i gefnogi'r teuluoedd sy'n dewis addysgu yn y cartref yn well. |
| Mudwyr | | | X | |
| Eraill | | | X | |

### 4.8 Oherwydd eu crefydd a'u cred neu ddiffyg cred?

| Crefydd a chred neu ddiffyg cred | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwahanol grwpiau crefyddol yn cynnwys Mwslimiaid, Iddewon, Cristnogion, Sikhiaid, Bwdhyddion, Hindŵiaid, Eraill (nodwch) | | | X | |
| Cred e.e. Dyneiddwyr | | | X | |
| Diffyg cred | | | X | |

**4.9 Oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol?**

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Dynion hoyw | | | X | |
| Lesbiaid | | | X | |
| Deurywiol | | | X | |

## 4.10 A ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hawliau dynol pobl?

***Gweler pwynt 1.4 o Atodiad A yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Canllawiau ar ddod o hyd i wybodaeth bellach am Hawliau Dynol.***

| Hawliau Dynol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim / Dibwys | Rhesymau dros eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) / Sut y gallai effeithio? |
|---|---|---|---|---|
| Hawliau Dynol yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig | X | | | Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar wahân mewn cysylltiad â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

***Os ydych chi wedi nodi unrhyw effeithiau (ac eithrio rhai dibwys), cadarnhaol neu negyddol, ar unrhyw grŵp â nodweddion gwarchodedig, llenwch Ran 2.***

***Os na cheir unrhyw effeithiau cadarnhaol na negyddol, neu os ceir rhai dibwys yn unig, ewch yn syth i Ran 2 a llofnodwch yr Asesiad.***

## Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb – Rhan 2

### 1. Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gasgloch ac a ystyriwyd gennych yn Rhan 1, ystyriwch y canlynol:

| |
|---|
| **Sut y gallai, neu sut y mae’r polisi’n helpu i wella / hyrwyddo cyfle cyfartal?** Er enghraifft, mesurau cadarnhaol a luniwyd i fynd i’r afael ag anfantais a chyrraedd gwahanol gymunedau neu grwpiau gwarchodedig? |
| Bydd y canllawiau anstatudol yn helpu awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth effeithiol i blant a phobl ifanc a’u teuluoedd, sydd yn dilyn Addysg Ddewisol yn y Cartref, a thrwy hynny helpu i hybu ac annog cyrhaeddiad addysgol y dysgwyr hynny.<br><br>Mae’r grwpiau gwarchodedig y disgwylir iddynt elwa ar y canllawiau hyn yn cynnwys Teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr, lleiafrifoedd ethnig a phlant ag anghenion addysgol arbennig.<br><br>Mae effeithiau cadarnhaol posibl ar blant a phobl ifanc a’u teuluoedd yn cynnwys:<br><br>• Mwy o eglurdeb ynglŷn â deddfwriaeth yn ymwneud ag addysg yn y cartref;<br><br>• Mwy o eglurdeb ynglŷn â hawliau, swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol o ran addysg yn y cartref;<br><br>• Agwedd fwy cyson ar draws Cymru ynglŷn â sut y mae awdurdodau lleol yn cydgysylltu â theuluoedd sy’n addysgu yn y cartref gan osgoi ‘loteri cod post’ – bydd yn nod gan y canllawiau i dynnu sylw at arfer da ar ran awdurdodau lleol;<br><br>• Eglurdeb ynglŷn â pha gymorth sydd ar gael iddynt gan awdurdodau lleol. |
| **Sut y gallai / sut y mae’r polisi / penderfyniad yn helpu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth?** |
| Nod y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol i ddarparu cymorth effeithiol. Dogfen anstatudol yw hon ac mae’n annhebygol o gael unrhyw effaith ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon posibl. |
| **Sut y gallai / sut y mae’r polisi’n effeithio ar wella / hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?** |

| |
|---|
| Mae'r canllawiau hyn yn datblygu ac yn disodli'r canllawiau'n ymdrin ag Addysg Ddewisol yn y Cartref a oedd wedi'u cynnwys o fewn Canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2006. Mae'n ceisio helpu i feithrin consensws ac ymddiriedaeth rhwng awdurdodau lleol a theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru, ac i ddatblygu proses ymgysylltu gadarnhaol a chefnogaeth addas. |

## 2. Cryfhau'r polisi

| |
|---|
| **Os yw'r polisi'n debygol o gael effaith negyddol (niweidiol) ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig neu ar gysylltiadau da, beth yw'r rhesymau am hyn?**<br><br>**Pa newidiadau / camau ymarferol allai helpu i leihau neu gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn Rhan 1?** |
| Amherthnasol |
| **Os na roddir unrhyw gamau ar waith i ddileu neu liniaru effaith negyddol / niweidiol, rhowch resymau pam.**<br>**(Cofiwch, os ydych chi wedi canfod gwahaniaethu anghyfreithlon (uniongyrchol neu bosibl) o ganlyniad i'r polisi, rhaid newid neu adolygu'r polisi.)** |
| Amherthnasol |

## 3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

| |
|---|
| **Sut yr ewch chi ati i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi?**<br>Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol sy'n mynd i gael ei gyflawni mewn perthynas â'r polisi (e.e. ymgynghoriadau, monitro penodol ac ati). |
| Cyhoeddir y canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Mai 2015. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried cyn cyhoeddi'r canllawiau terfynol ym mis Medi 2015.<br><br>Byddwn yn monitro ac yn mesur effeithiolrwydd y canllawiau anstatudol drwy sicrhau deialog ac ymgysylltu parhaus ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid Addysg Ddewisol yn y Cartref ledled Cymru. |

| |
|---|
| |
| **Bydd canlyniadau pob asesiad o effaith lle mae'r effaith yn sylweddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.** |
| Bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb hwn a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r ddogfen ymgynghori â'r cyhoedd. |

## 4. Datganiad

**Nid yw'r polisi'n effeithio'n sylweddol ar faterion cydraddoldeb**

| **Y swyddog sy'n cyflawni'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** |
|---|
| Enw: |
| Gemma Wilks |
| Adran: |
| Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| Dyddiad: |
| 29 Ebrill 2015 |
| Llofnod: |
| |
| **Pennaeth Adran (Llofnod)** |
| Enw: |
| Emma Williams |
| Teitl swydd ac adran: |
| Pennaeth yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr – yr Adran Addysg a Sgiliau |
| Dyddiad: |
| |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiad Adolygu: Mis Medi 2015 |